

Minutes



Cabinet

Date: Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2022

Time: 4.00 pm

Present: Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Batrouni, J Clarke, D Davies, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall

Apologies:

1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Dim wedi'i dderbyn.

2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim wedi'i dderbyn.

3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref yn gofnod gwir a chywir.

4 Pwysau allanol NCC - Costau Byw

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad cyntaf i gydweithwyr yn y Cabinet. Yr adroddiad hwn oedd ymateb Cyngor Dinas Casnewydd i'r pwysau allanol sy'n effeithio ar wasanaethau'r Cyngor.

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am ymateb y Cyngor i'r ffactorau allanol yn effeithio ar wasanaethau, cymunedau a busnesau.

Roedd y tair blynedd diwethaf yn heriol iawn i Gyngor Casnewydd a'i bartneriaid, yn cefnogi ei drigolion mwyaf agored i niwed a difreintiedig drwy'r pandemig a nawr yr argyfwng costau byw. A hefyd sicrhau bod economi a busnesau Casnewydd yn cael y gefnogaeth a'r gwydnwch angenrheidiol i wrthsefyll pwysau allanol byd-eang a'r DU.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd yr Arweinydd yr her ariannol a wynebodd Cyngor Casnewydd o ganlyniad i'r pwysau chwyddiant parhaus a'r bwlich yn y gyllideb o £33 miliwn.

Fel aelwydydd, busnesau ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac ar draws y DU, roedd Cyngor Casnewydd yn gweld ei gostau ei hun yn cynyddu oherwydd costau tanwydd ac ynni, mwy o alw am ofal cymdeithasol a chostau cynyddol wrth ddarparu gwasanaethau a nwyddau a brynwyd gan y Cyngor.

Ers 2011, mae Cyngor Casnewydd eisoes wedi gweithredu dros £90m o arbedion ac roedd y Cyngor wedi lleihau maint y sefydliad yn sylweddol, gyda hyn mewn golwg, ychydig iawn o ddewisiadau oedd ar ôl i ni.

-

Cafodd dros dri chwarter cyllideb y Cyngor ei hariannu gan grant gan Lywodraeth Cymru gyda dim ond chwarter yn dod o'r arian a godwyd drwy'r dreth gyngor.

Roedd hwn yn fil sylweddol iawn er i Gasnewydd gynnal un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru ers blynyddoedd lawer.

Mae mwy na dwy ran o dair o gyllideb y cyngor wedi'i gwario ar ysgolion, addysg a gofal cymdeithasol.

Nid oedd unrhyw Arweinydd na Chabinet awdurdod lleol am orfod gwneud y dewisiadau heriol hyn, ond mae'r amgylchiadau presennol yn golygu y byddai angen gwneud penderfyniad ar sut i leihau bwlch yn y gyllideb.

Fis nesaf, byddai'r Cabinet yn derbyn nifer o gynigion i'w hystyried cyn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn i drigolion gael dweud eu dweud ar y cynigion.

Er gwaethaf y cyfnod heriol hwn, roedd swyddogion y Cyngor yn parhau i gefnogi'r preswylwyr agored i niwed a difreintiedig ac yn cefnogi busnesau cystal ag y gallent trwy argyfwng costau byw.

Fodd bynnag, ni ellid ei adael i'r Cyngor yn unig, a byddai angen i sefydliadau, elusennau, grwpiau nid-er-elw a grwpiau gwirfoddol a grwpiau crefyddol eraill Casnewydd weithio gyda'i gilydd i helpu i ddarparu pa bynnag gymorth y gallem dros y chwe mis nesaf.

Yn gynharach y mis hwn, cynhaliodd yr Arweinydd Uwchgyhadledd Costau Byw gydag arweinwyr strategol a chymunedol o bob rhan o Gasnewydd i ddeall sut y gallem weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i ffyrdd y gallem rannu adnoddau, adeiladau a chyfleoedd eraill i gefnogi aelwydydd dros gyfnod y gaeaf hwn. O ganlyniad i'r Uwchgyhadledd hon, roeddem yn gweithio'n agosach gyda sefydliadau ac arweinwyr cymunedol eraill i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

Cynhaliwyd Digwyddiad Costau Byw hefyd yn Theatr Glan yr Afon yn gwahodd gwasanaethau'r Cyngor a'r Partneriaid i roi cyngor, arweiniad a chefnogaeth i drigolion Casnewydd.

Roedd y digwyddiad hwn ymhlith llawer o wasanaethau a mentrau eraill yr oedd y Cyngor yn arwain arnynt.

Roedd yn bwysig pwysleisio i drigolion pe baent yn cael trafferth gyda chostau byw i gysylltu â'u Cynghorydd lleol, y Cyngor neu sefydliadau eraill fel Canolfan Cyngor ar Bopeth a allai helpu a darparu neu gyfeirio at y cymorth priodol.

Cefnogodd Cyngor Casnewydd hefyd Genedl Noddfa Llywodraeth Cymru ac ymfalchiodd gyda'n cefnogaeth i bobl a gafodd eu dadleoli oherwydd erledigaeth, gwrthdaro a thrychinebau naturiol.

Dros y pum mlynedd diwethaf croesawyd llawer o deuluoedd, fel y rhai o Syria, Afghanistan, Irac drwy fentrau Llywodraeth y DU fel cynllun gwasgaru'r Swyddfa Gartref i ymgartrefu a chreu bywyd newydd yng Nghasnewydd.

Oherwydd y cynnydd mewn pobl sy'n ceisio lloches o ganlyniad i effaith materion byd-eang, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddull 'Gwasgaru Llawn' a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddod yn ardaloedd gwasgaru ceiswyr lloches.

Ac yn fwy diweddar gwnaethom groesawu teuluoedd Wcrainaidd gyda llawer o drigolion yn cynnig eu cartrefi i helpu i ddarparu lleoliad diogel iddynt eu hunain a'u plant.

Trwy gydol yr heriau hyn, parhaodd swyddogion o bob rhan o'r Cyngor i gydweithio a gweithio gydag asiantaethau eraill i helpu pobl i ddod o hyd i lety addas a diogel yng Nghasnewydd a sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cyngorydd Davies fod y Cyngor yn canolbwyntio ar yr hyn oedd yn digwydd yn ein hysgolion o dan yr amgylchiadau anodd hyn. Roedd ysgolion wedi ymateb i'r disgyblion hynny mewn angen drwy ddefnyddio cyllid grant i benodi swyddogion cyswllt teulu i ddisgyblion. Roedd ysgolion yn dod yn wasanaeth cofleidiol i ddisgyblion a theuluoedd.
- Cytunodd y Cyngorydd Harvey gyda'r sylwadau ac roedd am atgoffa trigolion pe bai angen iddynt gysylltu â chynghorydd a fyddai'n helpu i gysylltu â'r bobl iawn.
- Soniodd y Cyngorydd Forsey fod nifer o sesiynau cyngor yn cael eu cynnal gan gydweithwyr er mwyn i drigolion alw heibio a chael y cyngor a'r cymorth cywir.
- Ychwanegodd y Cyngorydd Hughes fod yr adroddiad yn amlygu bod yr help yno. Pe bai pobl yn gallu dod ymlaen, roedd llawer o waith partneriaeth, banciau bwyd ac eglwysi i drigolion geisio cymorth. Roedd yn bwysig bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn gynnar.
- Roedd y Cyngorydd Clarke yn gobeithio bod y trigolion yn deall pan oedd eu biliau yn codi, felly hefyd y Cyngorau oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol. Ar nodyn cadarnhaol, nid oedd y Cyngor yn gadael pobl ar ôl ac roeddent hefyd yn darparu cefnogaeth i ffoduriaid Wcráin.
- Roedd y Cyngorydd Batrouni eisiau rhoi sicrwydd i bobl Casnewydd y byddai'r Cyngor yn gwneud y gorau y gallai gyda'r hyn oedd gennym o dan yr amgylchiadau.
- Ychwanegodd y Cyngorydd Lacey ei bod yn bwysig cefnogi ein gilydd fel cymuned. Byddai cynghorwyr, partneriaid a swyddogion fel ei gilydd yn gweithio'n galed iawn i gefnogi trigolion dros y misoedd nesaf.
- Cytunodd yr arweinydd hefyd gyda sylwadau ac ychwanegodd fod yn rhaid i ni sefyll ochr yn ochr a chefnogi ein cymunedau a'n swyddogion.

Penderfyniad:

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgarwch y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau cyngor Casnewydd.

5 Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion Blynyddol

Cyflwynodd yr Arweinydd yr eitem nesaf a oedd yn ddiweddariad ar Ganmoliaeth, Sylwadau a Rheoli Cwynion yn unol â'r Polisi a fabwysiadwyd gennym yn 2021.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o sut y llwyddodd y cyngor i reoli canmoliaeth, sylwadau a chwynion a pherfformiad y cyngor yn 2021-2022, gyda throsolwg, wedi'i ddadansoddi gan feysydd gwasanaeth a mathau o gwynion yn ogystal â thynnu sylw at dueddiadau a themâu allweddol a dynnwyd o'r data.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried y gwersi a ddysgwyd i'r Cyngor a chamau gweithredu i gyflawni'r gwelliannau hyn.

Cyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Medi lle derbyniwyd adborth a sylwadau gwerthfawr.

Cynyddodd canmoliaeth gorfforaethol gan 0.5% o 20/21, cynyddodd canmoliaeth oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol gan 66% o 20/21 a chynyddodd Canmoliaeth Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol o 0 mewn 20/21 i 13 yn 21/22.

Cynyddodd y sylwadau gan 37% o 20/21 ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cael eu categoreiddio'n gywir gan y gallai fod angen gweithredu penodol ar rai.

Cynyddodd cwynion cyfnod corfforaethol 1 â 3.6% ers 20/21 ond roedd gostyngiad o 20% yn nifer y cwynion a gafodd eu symud ymlaen i gam 2 gan ddangos bod mwy o gwynion yn cael eu datrys ar y cam cyntaf.

Cynyddodd cwynion Cyfnod 1 y Gwasanaethau Cymdeithasol gan 36% ers 20/21 ond roedd gostyngiad o 50% yng nghwynion oedd yn cyrraedd cam 2.

Aeth y gostyngiad yn nifer y cwynion sy'n mynd ymlaen i gam 2 yn gorfforaethol ac i'r Gwasanaeth Cymdeithasol yn gadarnhaol.

Cydnabuwyd bod angen gwaith i gael rhagor o fewnwelediad o adborth cwsmeriaid, yn enwedig cwynion a dylai'r broses ddiweddar o drawsnewid y tîm i Bolisi a Thrawsnewid Pobl helpu gyda hyn.

Gweithiodd y cyngor yn agos gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymgorffori arfer gorau a chydabod y dylid annog a gweithredu ar adborth cwsmeriaid. Roedd llythyr blynyddol yr Ombwdsmon hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad yn y pecyn cyhoeddedig.

Roedd y cyngor yn gweithio i sicrhau bod adborth yn cael ei gategoreiddio'n briodol er mwyn darparu'r ymateb mwyaf effeithiol ac effeithlon. Cafodd hyn a chymau eraill a nodwyd yn yr adroddiad eu cynllunio i wella perfformiad yn y dyfodol a byddai'n arwain at edrych yn wahanol i'r ffigurau pennawd.

Penderfyniad:

Bu'r Cabinet yn ystyried ac yn cytuno ar gynnwys yr adroddiad ynghylch proses a pherfformiad adroddiad blynyddol canmoliaeth, sylwadau a chwynion corfforaethol y Cyngor 2021/22.

6 Adroddiad Diogelu Blynyddol

Cyflwynodd yr Arweinydd yr eitem nesaf, sef yr Adroddiad Blynyddol dros dro ar gyfer Diogelu. Yr adroddiad hwn oedd gwerthusiad y Pennaeth Diogelu Corfforaethol o berfformiad 2021/22 ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Roedd hwn yn adroddiad dros dro oherwydd newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ddechrau'r flwyddyn nesaf yn unol â'r canllawiau newydd.

Roedd diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion bregus yn bendant y flaenoriaeth uchaf i Gyngor Dinas Casnewydd. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi dyletswydd ac ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo iechyd, lles a hawliau dynol oedolion a phlant sydd mewn perygl.

Asesodd yr adroddiad hwn weithredoedd ac ymatebion rhagweithiol y Cyngor i ddiogelu. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu ar 30 Medi 2022, cafwyd trafodaeth adeiladol a defnyddiol ar gynnwys yr adroddiad.

Nododd yr adroddiad yr heriau ar draws y Cyngor o ran diogelu oherwydd y pwysau a ddaeth yn sgil Covid a chyfyngiadau'r pandemig.

Gwelodd y Ganolfan Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Plant gynnydd o 13.9% mewn atgyfeiriadau yn ystod 2021/22. Roedd hyn yn adlewyrchu'r materion a gododd mewn ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ieuencid ac asiantaethau partner. I'r plant a'u teuluoedd, roedd dull diogelu effeithiol a chadarn yn hanfodol a gallai fod yn newid bywydau.

Er gwaethaf y pwysau, dangosodd canlyniad yr hunanasesiad diogelu ar gyfer pob rhan o'r Cyngor lefel uchel iawn o gydymffurfiaeth â gofynion statudol a phenderfyniad i barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf ar ddiogelu i bob dinesydd.

Braf oedd nodi bod Canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Diogelu Corfforaethol (Mawrth 2022) yn cynnwys offeryn Hunanasesu Diogelu Casnewydd fel model o arfer da. Cyhoeddwyd y canllawiau allan o themâu tebyg a ddaeth o archwiliad allanol ac fe'u hanogir i safoni rhywfaint o'r data perfformiad er mwyn galluogi mesur pellter a deithiwyd i feincnodi gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Nodwyd yr heriau o sicrhau bod yr holl staff, gwirfoddolwyr ac Aelodau yn cael mynediad at hyfforddiant ar gyfer pob maes diogelu ac yn ymgysylltu â nhw yn yr adroddiad. Roedd hwn yn faes a fyddai'n parhau i fod angen ffocws a blaenoriaethu brwd dros y flwyddyn i ddod.

Roedd y Cyngor yn gweithio i sicrhau bod diogelu yn cael ei gynnal ym mhob gwasanaeth a byddai'n gweithio yn y flwyddyn i ddod gyda'r Canllawiau diwygiedig ar gyfer Diogelu Corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cyngorydd Hughes mai'r newid mwyaf arwyddocaol oedd diffiniad o oedolion mewn perygl ac roedd yn ein hatgoffa mai busnes pawb oedd diogelu a'n bod yn cael ein gweld yn rhagweithiol. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol hefyd i'r tîm diogelu am weithio yn ystod cyfnodau hynod heriol i gynnal diwylliant diogelu a lefel uchel o gefnogaeth.
- Cefnogodd y Cyngorydd Davies sylwadau'r Cyngorydd Hughes ac ychwanegodd ei bod hi'n bwysig ein bod ni, fel rhieni corfforaethol, yn cymryd ein cyfrifoldeb o ddifrif am ddiogelu, bod hyn hefyd yn ymestyn i ysgolion. Roedd hyfforddiant yn ofyniad statudol ac roedd ar bob un ohonom ddyletswydd i'r plant yng Nghasnewydd.

Penderfyniad:

Derbyniodd y Cabinet yr Adroddiad Diogelu Blynyddol (dros dro) gan y Pennaeth Diogelu Corfforaethol.

7 Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2021/22

Cyflwynodd yr Arweinydd Adroddiad Hunanasesu Lles Corfforaethol blynyddol y Cyngor (2021/22). Hwn oedd pumed Adroddiad Blynyddol a therfynol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-22. Roedd hyn yn adlewyrchu ac yn hunanasesu'r hyn a gyflawnodd y Cyngor hwn yn 2021/22, ble i wella ein perfformiad ac fel edrych ymlaen at y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno heddiw hefyd.

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i Gyngor Dinas Casnewydd Hunanasesu ei drefniadau llywodraethu a pherfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Croesawodd yr Arweinydd y cyfle i gyflwyno'r adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'i thîm Gweithredol i Bwyllgor Rheoli Craffu Trosolwg y Cyngor ym mis Medi. Cyflwynwyd yr

adroddiad hefyd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor am y tro cyntaf fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Llywodraeth Leol.

Cafodd y ddau argymhelliad eu cynnwys yn yr adroddiad a'u hystyried fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol drafft a gyflwynwyd yn y cyfarfod Cabinet hwn.

Wrth edrych yn ôl ar 2021/22, roedd pandemig Covid yn dal i fod yn gyffredin ar draws ein cymunedau yng Nghasnewydd ac roedd cyfyngiadau yn dal i fod ar waith a oedd yn parhau i darfu ar lawer o wasanaethau.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio ac i ni ddechrau dychwelyd yn ôl i arferion, dechreuodd pwysau pellach ddod i'r amlwg o ganlyniad i chwyddiant, gwrthdaro Wcráin a rheoli ôl-groniad o waith yn dilyn y pandemig.

Parhaodd llawer o'r pwysau hyn i effeithio ar ddarpariaeth ein gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf a byddai'n bwysig i bob un ohonom ddysgu gwersi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan fanteisio ar y cyfleoedd i wella ein gwasanaethau ac atal cystal effaith y pwysau allanol hyn ar ein cymunedau.

Er gwaethaf yr holl heriau hyn, parhaodd swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, ein partneriaid yng Nghasnewydd ac arweinwyr cymunedol i fynd y tu hwnt i'w dyletswyddau am bobl a busnesau Casnewydd.

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf, daeth llawer o'n prif brosiectau yng nghanol y ddinas yn dwyn ffrwyth gydag agoriad y Farchnad Dan Do, Tŵr y Siartwyr ac Arcêd y Farchnad.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein prosiect mawr nesaf i ddatblygu'r Cwr Gwybodaeth, gan greu canolfan hamdden newydd sbon ochr yn ochr â champws newydd ar gyfer Coleg Gwent. Nid yn unig y byddai'r rhain yn darparu cyfleoedd ar gyfer swyddi lleol, ond byddai'n helpu i barhau i wella canol y ddinas, gan newid y ffordd yr ydym yn defnyddio ein manau ar gyfer manwerthu, hamdden a chynnwys y gymuned.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cydnabod gwaith cymuned ein hysgolion a'n gwasanaethau Addysg i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael y cyfle gorau i wneud y mwyaf o'u potensial a chefnogi twf parhaus y ddinas.

Roedd y Cyngor hefyd yn gwbl ymwybodol bod angen i genedlaethau'r dyfodol fyw mewn dinas a oedd yn gwella ac yn diogelu ein hamgylchedd a dyna pam y gwnaethom ddatgan y llynedd yn argyfwng ecolegol a newid yn yr hinsawdd a lansiodd Gynllun Newid Hinsawdd i ddod yn garbon sero net erbyn 2030.

Yn olaf, tynnodd yr adroddiad hwn sylw hefyd at yr heriau a wynebier y byddai angen eu hystyried dros y pum mlynedd nesaf.

Nid oedd y pwysau yr oedd gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu yn unigryw i Gasnewydd, ac er gwaethaf gwaith caled staff, gofawyr a theuluoedd byddai cyfnod heriol iawn dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau bod gennym wasanaeth cynaliadwy i ddiogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed a difreintiedig.

Wrth gloi, nododd yr adroddiad 14 o argymhellion lle gallem gryfhau ein trefniadau llywodraethu a pherfformiad.

Roedd yn bwysig fel Aelodau'r Cabinet sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith rhagorol yr oedd ein meysydd gwasanaeth yn ei gyflawni ac i herio lle y gallem wella ar ein perfformiad.

Ar ôl cymeradwyo'r adroddiad hwn byddai'n cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Cyngor ac yn unol â gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol, byddai'n cael ei rannu gyda'r tri chorff rheoleiddio (Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn).

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Roedd y Cynghorydd Davies, am ddathlu agoriad Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn ddiweddar. Yn ogystal, cafodd offer TG yng Nghasnewydd ei gydnabod fel y gorau yng Nghymru, yn ystod y cyfnod clo ac yn awr mewn ysgolion. Enghraifft o hyn oedd pan fynychodd y Cynghorydd Davies senedd disgyblion yn ddiweddar lle bu'r disgyblion yn gweithio ar eu gliniaduron unigol. Fodd bynnag, roedd presenoldeb yn her enfawr a dyma lle roedd cyfleoedd dysgu yn newid bywydau, roedd yr Aelod Cabinet eisiau diolch i swyddogion lles addysgol am eu gwaith caled.
- Cytunodd y Cynghorydd Harvey, gyda sylwadau'r Dirprwy Arweinydd fod gwaith gydag ysgolion yn parhau. Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r staff am eu gwaith anhygoel o galed, gan gynnwys Dechrau'n Deg ac ymyrraeth deuluol. Roedd cyllid o £270k ar draws cymunedau ar gael yn ystod y pandemig ac fe wnaeth y staff addysg waith anhygoel o dan yr amgylchiadau ac felly cefnogodd y Cynllun.
- Roedd y Cynghorydd Hughes yn falch bod gwaith caled staff gofal cymdeithasol wedi cael ei gydnabod yn ystod y pandemig yn ogystal â gwaith staff gofal cartref.
- Ychwanegodd y Cynghorydd Forsey fod y Cyngor wedi gwneud dechrau da ar sero carbon. Yn ogystal, roedd cynnydd monitro ansawdd aer wedi gweld gwelliannau oherwydd y defnydd o gerbydau trydan, gan gynnwys cerbydau trydan y cyngor.

Penderfyniad:

Cymeradwyodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol 2021/22 i'w gyhoeddi ac i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r tri chorff rheoleiddio.

8 Adroddiad Terfynol Cynllun Corfforaethol 2022/2027

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad nesaf i'r Cabinet gytuno ar Gynllun Corfforaethol pum mlynedd nesaf y Cyngor a'i argymhell i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu.

Roedd yn ofynnol i Gyngor Casnewydd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gynnal datblygu cynaliadwy i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd hefyd yn ddyletswydd arnom i gyflawni ei rolau statudol ac anstatudol i gefnogi dinasyddion, busnesau a rhanddeiliaid.

Roedd y Cynllun hwn yn blaenoriaethu ffocws strategol hirdymor y Cyngor ac yn bodloni gofynion y Ddeddf Llesiant.

Cynhaliwyd datblygiad Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor (2022-27) rhwng uwch swyddogion ac Aelodau Cabinet y Cyngor drwy gyfres o weithdai.

Ystyriodd y Cynllun hwn y cyfleoedd a'r risgiau tymor byr a hir i'r Cyngor, ei drigolion, yr economi a'r amgylchedd.

Wrth ddatblygu'r Cynllun, ymgynghorwyd â thrigolion â'r themâu Amcan Lles a dderbyniwyd yn gadarnhaol.

Dros y pum mlynedd nesaf byddai datganiad cenhadaeth Cyngor Casnewydd yn gweithio i gyflawni '*Casnewydd uchelgeisiol, tecach, wyrddach i bawb.*'

Er mwyn cefnogi'r nod hwn, byddai pedwar Amcan Lles yn cael eu cefnogi gan flaenoriaethau strategol:

1. **Economi, Addysg a Sgiliau**- Mae Casnewydd yn ddinas lewyrchus sy'n tyfu, sy'n cynnig addysg ragorol ac sy'n ceisio creu cyfleoedd i bawb.
2. **Amgylchedd a Seilwaith** - Dinas sy'n ceisio amddiffyn a gwella ein hamgylchedd tra'n lleihau ein hól troed carbon a pharatoi ar gyfer dyfodol cynaliadwy a digidol.
3. **Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymunedol o Ansawdd** - Mae Casnewydd yn Ddinas gefnogol lle mae cymunedau a gofal yn greiddiol i'r hyn rydym yn ei wneud.
4. **Cyngor Cynhwysol, Teg a Chynaliadwy** - Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sefydliad cynhwysol y mae gwerth cymdeithasol, tegwch, a chynaliadwyedd yn ganolog iddo.

Fel yr amlinellwyd ar ddechrau'r cyfarfod Cabinet hwn, roedd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn mynd i fod yn heriol iawn gan ein bod yn mantoli Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wrth gyflawni blaenoriaethau strategol.

Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniadau arloesol a thrawsnewidiol a rhaid cydnabod na allai Cyngor Dinas Casnewydd gyflawni cyflawni'r amcanion hyn yn unig, a dyna pam y byddem yn sicrhau bod egwyddorion allweddol yn cael eu dilyn drwy gydol y broses o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol:

- **Teg a chynhwysol** – Byddwn ni'n gweithio i greu cyfleoedd tecach, lleihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac annog ymdeimlad o berthyn.
- **Grymuso** - Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, grwpiau, a phartneriaid ac yn eu cefnogi i ffynnu.
- **Cyngor sy'n gwranddo** - Bydd barn cymunedau, defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid yn siapio'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'r llefydd rydych chi'n byw ynddyn nhw.
- **Canolbwynt ar ddinasyddion** - Bydd pawb sy'n gweithio ac yn cynrychioli Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi'r dinesydd yn gyntaf, gan ganolbwyntio ar ein gwerthoedd sefydliadol craidd.

Byddai'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cael ei ategu gan raglenni a phrosiectau allweddol a oedd yn anelu at wella economi a chymunedau Casnewydd a darparu gwasanaethau'r Cyngor.

Byddai pob un o feysydd gwasanaethau'r Cyngor yn datblygu cynllun gwasanaeth a fyddai'n amlinellu eu blaenoriaethau strategol eu hunain i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd a gwella gwasanaethau'r Cyngor yn barhaus.

Er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni, byddai'r Cynlluniau Gwasanaeth yn cael eu monitro drwy gydol y pum mlynedd ac yn cael eu hadrodd i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor, y Cabinet a'r Cyngor.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Dywedodd y Cyngorydd Davies fod yr adroddiad yn gorff pwysig o waith ac yn cael ei rannu yn niolch yr Arweinydd am waith caled swyddogion. Canolbwyntiodd y Cynllun ar waith gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, sef yr unig ffordd i sicrhau cefnogaeth i drigolion Casnewydd yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd.
- Ychwanegodd y Cyngorydd Clarke fod yn rhaid i ni fod yn gadarnhaol i symud hyn ymlaen a'i bod yn allweddol i gyflawni'r nodau hyn a'r gobaith oedd bod trigolion Casnewydd yn deall pwysigrwydd egwyddorion yr adroddiad.

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Batrouni y gair uchelgeisiol yn nheithl y Cynllun Corfforaethol. Roedd hwn yn gynllun uchelgeisiol a dylai'r Cyngor fod yn falch o hyn. Byddai'r Cyngor yn cefnogi holl ymdrechion ei drigolion a'r Cyngor. Dangosodd y Cynllun hefyd fod y cyngor wedi ail-werthuso ei wasanaethau.
- Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod wedi ymrwymo i'r Cyngor a'r preswylwyr dair blynedd yn ôl, y byddai'n gwrando. Gyda hyn mewn golwg, roedd yr Arweinydd yn falch iawn o weld gerbron y Cabinet gynllun corfforaethol a wnaeth ymrwymiad i Gyngor Dinas Casnewydd fod yn gyngor gwrando. Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r swyddogion oedd wedi darparu'r adroddiad.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar y Cynllun Corfforaethol ac argymhellodd iddo fynd i'r Cyngor Llawn ar gyfer mabwysiadu.

9 Cytundeb Rhannu Costau gyda Choleg Gwent

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad i gydweithwyr yn y Cabinet a oedd yn ymwybodol o gynlluniau i ddatblygu canolfan hamdden a lles newydd, fodern ac effeithlon o ran ynni wrth ymyl Campws PDC ar Usk Way ac yn ei dro gael gwared ar safle presennol Canolfan Casnewydd i Goleg Gwent ar gyfer eu campws newydd yng nghanol y ddinas. Roedd cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda ac mae caniatâd cynllunio ar gyfer y ddau safle wedi ei ganiatáu. Y cam nesaf yn y prosiect uchelgeisiol hwn yw dechrau trefnu ar gyfer dymchwel Canolfan Casnewydd a chwblhau'r broses o drosglwyddo'r safle i Goleg Gwent. Mae'r datblygiadau trawsnewidiol hyn yn hanfodol i gyflawni ein huchelgeisiau twf economaidd ac ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol.

Fel adlewyrchiad o bartneriaeth waith ardderchog y Cyngor gyda Choleg Gwent ar y prosiect hwn ac ymrwymiad y ddwy ochr i ddarparu Chwarter Gwybodaeth Casnewydd yng nghanol y ddinas, cytunodd Coleg Gwent i rannu'r costau sy'n gysylltiedig â dymchwel yr adeilad. Efallai y bydd cydweithwyr yn y Cabinet yn cofio bod dymchwel Canolfan Casnewydd yn rhan o amodau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y ganolfan hamdden a lles newydd. Er y rhagwelwyd o'r blaen y byddai'r derbyniad cyfalaf ar gyfer y tir wedi talu cost dymchwel, roeddem yn ymwybodol iawn bod costau prosiect yn destun chwyddiant digynsail ac roedd disgwyl y byddai costau ychwanegol yn uwch na gwerth y safle. Roedd yn bosibl y gallai costau dymchwel ar ei ben ei hun fod oddeutu £1.2m ond dim ond unwaith y bydd y contract dymchwel yn cael ei dendro'n ffurfiol y byddai hyn yn cael ei gadarnhau. Roedd disgwyl i'r ymarfer tendro hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr ac roedd yn bwysig bod y Cyngor a Choleg Gwent wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer rhannu costau cyn gosod contractau. Byddai cytundeb hefyd i rannu costau prosiect o tua £213,000 a gafwyd hyd yma fel rhan o'r broses ar gyfer sicrhau caniatâd cynllunio, cynnal arolygon technegol a chostau cyffredinol prosiectau.

Roedd yr adroddiad hwn yn gofyn am rannu unrhyw gostau dros gost y cytunwyd arno ar sail 50/50 rhwng y Cyngor a Choleg Gwent. Byddai angen i'r Cyngor ariannu'r cyfan o'r costau dymchwel ymlaen llaw, oherwydd cyfyngiadau amser. Byddai Coleg Gwent yn ceisio ad-dalu eu cyfran o'r costau sy'n uwch na'r pris gwerth tir unwaith y bydd y gwaith dymchwel wedi'i gwblhau, gyda'r £870,000 o dir yn cael ei dalu unwaith y rhoddwyd y les. Roedd Bwrdd Coleg Gwent eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i'r rhannu costau ac roedd disgwyl iddo gael ei gadarnhau yn eu cyfarfod Bwrdd nesaf.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i'r Cabinet awdurdodi swyddogion i gynnwys yr holl dir gofynnol o fewn y cytundeb gwaredu i Goleg Gwent y gellid ei ystyried yn angenrheidiol neu'n fuddiol at ddibenion y datblygiad.

Fel y soniwyd eisoes, y Cyngor oedd yn gyfrifol am ddymchwel yr adeilad. Nid oedd unrhyw rwymedigaeth ar Goleg Gwent i rannu costau yn ychwanegol at brisiad y safle ac fel gyda phob prosiect, roedd risgiau cysylltiedig. Roedd posibilrwydd y byddai tendrau'n dod yn ôl ar gost uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd, ac nid oedd Coleg Gwent eto i sicrhau cyllid ar gyfer eu datblygiad campws newydd. Roedd y Cyngor a Choleg Gwent yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r cyfleusterau gorau i breswylwyr ac roedd angen i ni barhau i wneud camau cadarnhaol i ddod â'r prosiectau hyn yn fyw.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies yn ôl at y Cynllun Corfforaethol a'r amcanion cyntaf sydd i'w croesawu, yr oedd y prosiect hwn wrth wraidd y prosiect, ac felly cynyddodd gymaint o gyfleoedd i'r preswylwyr, gan gynnwys cyflogaeth a mynediad at gyfleusterau hamdden rhagorol. Felly, cefnogodd y Cynghorydd Davies yr adroddiad.
- Ychwanegodd y Cynghorydd Harvey fod hwn yn gynllun uchelgeisiol. Fodd bynnag, dangosodd fod y Cyngor yn gwrando ar drigolion a bod angen canolfan o'r radd flaenaf ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Penderfyniad:

̄ Mae'r Cabinet

- 1) Cytuno i'r trefniant rhannu costau arfaethedig mewn perthynas â'r holl gostau dymchwel, ymrwymo'r ddarpariaeth cyllid cyfalaf sy'n ofynnol ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol i ymrwymo i gytundeb prydlesu gyda Choleg Gwent a bwrw ymlaen â'r gwaith dymchwel angenrheidiol ar y sail hon.
- 2) Swyddogion awdurdodedig i gynnwys tir ychwanegol o'r fath sydd ar gael i Goleg Gwent yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol neu'n fuddiol at ddibenion y datblygiad a'r amgylchfyd cyhoeddus, ac i wneud unrhyw orchmynion atal angenrheidiol o'r fath sy'n ofynnol i hwyluso hyn.

10 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Dylid symud derbyn y rhaglen wedi ei diweddarau.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen waith.